Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Practis Deintyddol Rosehill

4 Ebrill 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu, pan wneir cais i fodloni anghenion unigol. Am fwy o gymorth, cysylltwch â ni.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost:** hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-4734-7042-2
© Hawlfraint y Goron 2016

## Cynnwys


1. Cyflwyniad ........ 2
2. Methodoleg ........ 2
3. Cyd-destun ........ 4
4. Crynodeb ........ 5
5. Canfyddiadau ........ 6
   - Profiad y Claf ........ 6
   - Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal ........ 7
   - Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........ 10
   - Ansawdd yr Amgylchedd ........ 13
6. Y Camau Nesaf ........ 14
   - Atodiad A ........ 15

## 1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dilynol lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Rose Hill yn Iscraig, Stryd Rose Hill, Conwy, LL32 8LD, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ar 4 Ebrill 2016.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu'r meysydd canlynol:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd.

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o bractisau deintyddol cyffredinol yn ceisio sefydlu pa mor dda mae practisau yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal.[1] Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[2] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[3] Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Sgyrsiau â staff

---

[1] http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/how-the-health-and-care-standards-are-st

[2] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh

[3] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh

- Archwiliad o bolisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwiliad o'r offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis.

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai ddeillio o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

## 3. Cyd-destun

Rosehill Dental Practice provides services to approximately 4,000 patients in the Conwy and surrounding area. The practice forms part of dental services provided within the geographical area known as Betsi Cadwaladr University Health Board.

Mae tîm y practis yn cynnwys un prif ddeintydd/perchennog y practis, pedair nyrs ddeintyddol, ac un derbynnydd.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Gwiriadau ac archwiliadau arferol
- Llenwadau
- Coronau a phontydd
- Tynnu dannedd
- Gwynnu dannedd.

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn er mwyn gwneud gwaith dilynol ynglŷn â'r meysydd a nodwyd i'w gwella yn ystod arolygiad blaenorol AGIC ar 21 Gorffennaf 2015. Dywedwyd wrthym fod perchennog y practis/y prif ddeintydd cyfredol yn y broses o werthu'r practis i ddeintydd lleol arall. Fodd bynnag, mae'r prif ddeintydd, sydd wedi bod yn rhedeg y practis ers 1991, yn bwriadu gweithio yno am y dyfodol rhagweladwy.

## 4. Crynodeb

Ers ein hymweliad arolygu blaenorol ym mis Gorffennaf 2015, gwelsom fod gwybodaeth allweddol ar gyfer cleifion bellach wedi cael ei harddangos yn glir, gan gynnwys manylion cyswllt y gwasanaeth y tu allan i oriau a'r weithdrefn gwyno.

Fodd bynnag, ni wnaed unrhyw gynnydd ynglŷn â datblygu system i asesu a gwerthuso profiad cleifion. Disgwylir i'r perchennog arfaethedig newydd fynd i'r afael â'r dasg hon.

Gwelsom welliannau sylweddol i systemau a gweithdrefnau'r practis ar gyfer dadheintio a rheoli heintiau. Roedd gan y staff rolau a chyfrifoldebau clir, a ddangoswyd inni. Roedd systemau gwell ar waith ar gyfer gwaredu ar wastraff cyffredinol a gwastraff peryglus.

Fodd bynnag, nid oedd yr arferion gwell a welsom yn cael eu hategu gan bolisïau, gweithdrefnau a systemau archwilio digon cadarn. Felly, rydym wedi argymell gwelliannau pellach yn y meysydd hyn.

At ei gilydd, roedd y gwendidau a ganfuom yn flaenorol ynglŷn â rheolaeth ac arweinyddiaeth y practis wedi parhau. Yn benodol, mae'r prif ddeintydd yn rhy brysur i reoli'r practis ac nid oes rheolwr practis. Er hynny, roedd yr holl staff yn garedig ac yn cydweithredu â ni a'r cleifion.

Gwelsom nad oedd system glir ar gyfer datblygu ac adolygu'r polisïau a'r gweithdrefnau. Nid oedd rhai o'r rhain yn ddigon cadarn nac yn cyfeirio at ganllawiau clinigol. Felly, nid oedd y gwelliannau a oedd eu hangen ar ôl ein harolygiad ond wedi eu gwneud yn rhannol, neu ddim wedi eu gwneud.

Roedd llai o annibendod nag a welwyd yn flaenorol ac roedd mannau i'w gweld yn fwy taclus a threfnus. Serch hynny, mae diffyg lle storio yn parhau i fod yn broblem. Roedd cynlluniau i roi arwyneb newydd ar y man sy'n arwain at y fynedfa ochr, a fydd yn gwella mynediad ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn. Roedd amserlenni a systemau strwythuredig ar waith ar gyfer glanhau.

## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

**Ers ein hymweliad arolygu blaenorol ym mis Gorffennaf 2015, gwelsom fod gwybodaeth allweddol ar gyfer cleifion bellach wedi cael ei harddangos yn glir, gan gynnwys manylion cyswllt y gwasanaeth y tu allan i oriau a'r weithdrefn gwyno.**

**Fodd bynnag, ni wnaed unrhyw gynnydd ynglŷn â datblygu system i asesu a gwerthuso profiad cleifion. Disgwylir i'r perchennog arfaethedig newydd fynd i'r afael â'r dasg hon.**

Yn dilyn yr arolygiad diwethaf, gwnaethom argymell y practis i arddangos gwybodaeth allweddol, gan gynnwys manylion cyswllt y gwasanaeth y tu allan i oriau a gwybodaeth am y weithdrefn gwyno, mewn lleoliad mwy amlwg yn y practis. Ar yr achlysur hwn, roedd hysbysiadau dwyieithog Cymraeg/Saesneg am y wybodaeth hon wedi eu harddangos yn eglur yn yr ystafell aros. Roedd hyn yn cynnwys '*Gweithio i Wella'* y GIG, sy'n disgrifio'r trefniadau ar gyfer ymdrin â chwynion am wasanaethau'r GIG yng Nghymru ac ymateb iddynt.

Gwnaethom argymell bod y practis yn gwella'r dulliau ar gyfer cyfathrebu'n gyffredinol, gan ddefnyddio amrywiaeth o fformatau ac ystyried anghenion iaith a chyfathrebu cleifion. Gwnaethom siarad â staff, a gadarnhaodd fod y system gyfrifiadurol yn cael ei defnyddio i nodi a oes gan gleifion anghenion ychwanegol neu arbenigol. Felly, gall staff gynnig y cymorth priodol sydd ei angen ar gleifion pan ddeuant i'r practis.

Ar adeg ein harolygiad dilynol, nid oedd y practis yn gallu derbyn atgyfeiriadau ychwanegol, gan fod un ystafell driniaeth yn unig yn cael ei defnyddio, ac roedd yng nghanol y broses o newid perchnogaeth. Felly, pan fydd y practis mewn sefyllfa i dderbyn cleifion newydd, gwnaethom argymell bod yr holiadur cleifion newydd yn cynnwys rhan iddynt hysbysu'r practis am unrhyw anghenion arbenigol a'u dewis iaith, ac y dylid rhoi'r wybodaeth hon wedyn ar y system.

Dywedwyd wrthym, oherwydd bod y practis yng nghanol y broses o newid perchnogaeth, ni wnaed unrhyw gynnydd ynglŷn â datblygu systemau i asesu a gwerthuso profiad cleifion. O'r herwydd, roedd y dasg hon yn yr arfaeth.

***Gwelliant yn yr arfaeth***

***Rhaid i'r practis roi system ar waith er mwyn asesu a gwerthuso profiadau cleifion.Dylid defnyddio adborth gan gleifion i ddylanwadu ar newidiadau cadarnhaol i'r gwasanaeth a ddarperir.***

## *Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal*

**Gwelsom welliannau sylweddol i systemau a gweithdrefnau'r practis ar gyfer dadheintio a rheoli heintiau. Roedd gan y staff rolau a chyfrifoldebau eglur, a ddangoswyd inni. Roedd systemau gwell ar waith ar gyfer gwaredu ar wastraff cyffredinol a gwastraff peryglus.**

**Fodd bynnag, nid oedd yr arferion gwell a welsom yn cael eu hategu gan bolisïau, gweithdrefnau a systemau archwilio digon cadarn. Felly, rydym wedi argymell gwelliannau pellach yn y meysydd hyn.**

Yn ystod yr arolygiad blaenorol, gwnaethom nodi pryderon difrifol am y gweithdrefnau dadheintio a rheoli heintiau. Mae'r canfyddiadau hyn yn cael eu hamlinellu yn adroddiad arolygu AGIC, dyddiedig 21 Gorffennaf 2015.

Ar yr achlysur hwn, dangosodd ein harsylwadau fod gwelliannau sylweddol wedi eu gwneud i leihau'r risg o ledaenu heintiau. Roedd prosesau clir ar waith ar gyfer sterileiddio, pacio a storio offerynnau deintyddol a chyfarpar glân, fel y disgrifiwyd inni gan y nyrsys deintyddol y gwnaethom siarad â nhw. Roedd cofnodion yn cael eu cadw i ddangos bod gwiriadau a phrofion rheolaidd yn cael eu cynnal – er enghraifft, legionella, awtoglafau, a'r bath uwchsonig (cyfarpar ar gyfer glanhau a sterileiddio offerynnau deintyddol).

Roedd gan staff dasgau dadheintio a glanhau neilltuedig. Roedd yr ystafell ddadheintio'n rhydd rhag annibendod, i'w gweld yn fwy ffres o lawer, ac yn fwy trefnus nag yr oedd yn ystod ein harolygiad blaenorol.

Roedd polisi rheoli heintiau wedi'i arddangos, a oedd yn dilyn canllawiau Cymdeithas Ddeintyddol Prydain. Cadarnhaodd y staff eu bod yn ymwybodol o'i gynnwys. Fodd bynnag, nid oedd y polisi hwn wedi'i lofnodi na'i ddyddio, felly gwnaethom argymell bod y deintydd/perchennog cyfredol yn cyflwyno system i ddangos bod polisïau'n cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd. Dywedodd y deintydd wrthym fod archwiliad rheoli heintiau wedi cael ei gynnal ers yr arolygiad diwethaf, a oedd wedi dilyn canllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Fodd bynnag, nid oedd yr archwiliad hwn wedi cael ei ddogfennu, ac nid oedd archwiliad pellach wedi cael ei gynnal ers hynny.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylid sicrhau bod systemau a strwythurau rheoli llawer mwy cadarn ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau, ac fe ddylent gynnwys archwiliadau a chamau gweithredu sy'n cael eu dogfennu'n rheolaidd.***

Dywedwyd wrthym fod gan y perchnogion newydd arfaethedig gynlluniau i greu ystafell ddadheintio newydd.

Yn dilyn ein harolygiad diwethaf, gwnaethom argymell y dylid cynnal archwiliadau o ansawdd delweddau radiograffig yn fwy rheolaidd. Gwnaethom argymell bod y practis yn cyfeirio at ganllaw 'Llyfr Coginio ar gyfer Adolygiadau gan Gymheiriaid ac Archwiliadau Clinigol’ Deoniaeth Cymru, sydd ar gyfer archwiliadau cymheiriaid a chlinigol ac sy’n cynnwys radiograffeg. Ers ein harolygiad, roedd archwiliad o ansawdd delweddau radiograffig, a oedd wedi samplu deg sgan radiograffig, wedi cael ei gynnal ar 1 Chwefror 2015.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Yn dilyn ein harolygiad blaenorol, rydym yn argymell bod archwiliadau strwythuredig a rheolaidd yn cael eu cynnal, yn unol â chanllawiau clinigol megis ‘Llyfr Coginio ar gyfer Adolygiadau gan Gymheiriaid ac Archwiliadau Clinigol' Deoniaeth Cymru.***

Dangoswyd polisi dadebru inni, wedi'i lunio yn unol â'n hargymhelliad yn ystod ein harolygiad blaenorol. Roedd y polisi'n sylfaenol iawn ac nid oedd dyddiad arno.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylid datblygu gweithdrefnau dadebru mwy cadarn, yn unol â chanllawiau Cyngor Dadebru'r DU ar gyfer gofal deintyddol sylfaenol.***

Roedd staff yn derbyn hyfforddiant blynyddol ar ddadebru cardio-pwlmonaidd (CPR). Fodd bynnag, nid oedd cyfleoedd ychwanegol yn cael eu darparu er mwyn sicrhau bod staff yn parhau i fod yn gymwys i ymdrin â sefyllfaoedd brys posibl – er enghraifft, ymarferion sy'n seiliedig ar senarios.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis hefyd ystyried ategu hyfforddiant ar ddadebru cardio-pwlmonaidd â chyfleoedd dysgu ychwanegol – er enghraifft, ymarferion sy'n seiliedig ar senarios.***

Gwelsom fod un o'r meddyginiaethau sydd eu hangen mewn argyfwng, sef glwcagon, a oedd yn cael ei storio yn yr oergell yn flaenorol, bellach yn cael ei storio gyda gweddill y pecyn argyfwng. Cadarnhaodd staff fod system ar waith i ddisodli meddyginiaeth o fewn yr amser a argymhellir gan y gwneuthurwr.

Gwelsom fod y gwaith o storio a gwaredu ar wastraff wedi cael ei adolygu. Mae biniau pedal a biniau nad oes angen eu cyffwrdd wedi cael eu prynu, ac at ei gilydd gwelsom fod gwastraff peryglus yn cael ei waredu mewn modd priodol.

## *Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**At ei gilydd, roedd y gwendidau a ganfuom yn flaenorol ynglŷn â rheolaeth ac arweinyddiaeth y practis wedi parhau. Yn benodol, mae'r prif ddeintydd yn rhy brysur i reoli'r practis ac nid oes rheolwr practis. Er hynny, roedd yr holl staff yn garedig ac yn cydweithredu â ni a'r cleifion.**

**Gwelsom nad oedd system glir ar gyfer datblygu ac adolygu'r polisïau a'r gweithdrefnau. Nid oedd rhai o'r rhain yn ddigon cadarn nac yn cyfeirio at ganllawiau clinigol. Felly, nid oedd y gwelliannau a oedd eu hangen ar ôl ein harolygiad ond wedi eu gwneud yn rhannol, neu ddim wedi eu gwneud.**

Yn dilyn ein harolygiad blaenorol, gwnaethom ofyn i'r practis gynnal adolygiad o'r holl bolisïau a gweithdrefnau i sicrhau eu bod yn gywir ac yn gyfoes. Ar yr achlysur hwn, dywedwyd wrthym fod y gwaith hwn yn mynd rhagddo. Nid oedd tystiolaeth o system ar gyfer rheoli fersiynau, nid oedd dyddiad ar lawer o bolisïau, ac nid oedd tystiolaeth o system ffeilio dda er mwyn sicrhau bod staff yn gallu cael mynediad at y rhain pan fo angen.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae angen gwaith parhaus i sicrhau bod gan y practis bolisïau a gweithdrefnau cadarn ar waith i ategu gofal diogel a chlinigol effeithiol.***

Ar adeg ein harolygiad, nid oedd gan y prif ddeintyddion ddatgeliad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a oedd â dyddiad o fewn y tair blynedd ddiwethaf, yn unol â’r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. Fodd bynnag, y tro hwn gwelsom fod gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi cael ei gynnal ym mis Awst 2015. Cadarnhaodd y cynllun gwella a oedd yn ymateb i'n harolygiad blaenorol ni y bydd gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cynnal ar gyfer pob aelod o staff, i gyd-fynd â’r broses o newid rheolaeth a pherchnogaeth y practis.

Yn flaenorol, gwnaethom argymell gwelliannau i sicrhau bod aelodau o staff yn cael y cymorth priodol – er enghraifft, trwy gynnal trafodaethau rheolaidd mewn cyfarfodydd tîm ac arfarniadau staff. Gwelsom fod y gwelliannau a wnaed ers hynny'n gyfyngedig. Er enghraifft, cafodd y cyfarfod tîm diwethaf ei gofnodi ym mis Gorffennaf 2015. Nid oedd ffurflen arfarnu staff strwythuredig; roedd gwybodaeth arfarnu fer wedi'i theipio ar dudalen wag, ac ar y cyfan roedd yn annigonol i hybu datblygiad proffesiynol parhaus. Roedd cynllun datblygiad personol ar fformat Cymdeithas Ddeintyddol Prydain wedi cael ei ddatblygu ar

gyfer staff unigol, ond nid oedd tystiolaeth o sut roedd eu cynnydd yn cael ei fonitro dros y flwyddyn nesaf.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid i’r arfarniadau staff a chynlluniau datblygu personol blynyddol gael eu gwella, er mwyn dangos datblygiad proffesiynol parhaus.***

***Dylai cyfarfodydd tîm gael eu dogfennu'n glir a dangos dysgu a gwella.***

Yn ystod yr arolygiad blaenorol, dywedwyd wrthym fod staff yn cadw eu tystysgrifau hyfforddi eu hunain gartref. Er bod y cynllun gwella'n nodi y byddai cofnod sengl o hyfforddiant staff yn cael ei gadw, gwelsom nad oedd system glir ar gyfer monitro hyfforddiant. Fe'n hysbyswyd bod hyfforddiant gorfodol staff wedi cael ei ddiweddaru, gan eu bod wedi argraffu eu cofnodion datblygiad proffesiynol parhaus (ar system Deoniaeth Cymru) ym mis Awst 2015 i ddangos hyn.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Atgoffir y practis i ddatblygu system glir ar gyfer monitro cyfleoedd hyfforddi a dysgu.***

Er bod tystiolaeth o rywfaint o welliant yn ystod yr arolygiad hwn, roedd rhai o'r gwelliannau'n gyfyngedig ac yn annigonol i ddangos arweinyddiaeth a chyfeiriad clir. Dywedwyd wrthym fod y contractau i fod wedi eu cyfnewid rai misoedd yn ôl, ond roedd y trafodaethau'n dal i fynd rhagddynt. Fodd bynnag, roedd y deintydd yn hyderus y byddai'r broses o newid perchnogaeth yn mynd yn ei blaen o fewn y misoedd nesaf, ac ar ôl hynny bydd yn parhau i fod yn ddeintydd cyflogedig.

Fodd bynnag, nid yw'r gwelliant sydd ei angen ynglŷn â rheolaeth ac arweinyddiaeth wedi ei wneud o hyd. Fel y nodwyd yn ein hadroddiad blaenorol:

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylid ystyried ar frys rheolaeth ac arweinyddiaeth gyffredinol y practis, er mwyn sicrhau:***

- ***Cyhyd ag y bo modd, y cydymffurfir â rheoliadau a safonau***
- ***Bod llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd cryf i hyrwyddo proses gynaliadwy o ddarparu gofal yn ddiogel ac yn effeithiol.***

***Rhaid hysbysu AGIC am y dyddiad cwblhau pan fydd y broses o werthu'r busnes wedi'i chwblhau, unwaith mae'r perchennog/deintydd presennol yn gwybod.***

## *Ansawdd yr Amgylchedd*

**Roedd llai o annibendod nag a welwyd yn flaenorol ac roedd mannau i'w gweld yn fwy taclus a threfnus. Serch hynny, mae diffyg lle storio yn parhau i fod yn broblem. Roedd cynlluniau i roi arwyneb newydd ar y man sy'n arwain at y fynedfa ochr, a fydd yn gwella mynediad ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn. Roedd amserlenni a systemau strwythuredig ar waith ar gyfer glanhau.**

Gwelsom nad oedd mynediad ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn wedi cael ei wella ers ein harolygiad diwethaf. Roedd yr arwyneb a oedd yn arwain at y fynedfa ochr yn dal i fod yn anwastad. Fodd bynnag, dywedodd y deintydd wrthym fod y person sy'n gyfrifol am gynnal a chadw'r dreif wedi cytuno i roi arwyneb newydd ar y man hwn, a fydd yn gwella mynediad yn gyffredinol.

***Gwelliant yn yr arfaeth***

***Parhau i drafod â'r perchennog/y person sy'n gyfrifol am fynedfa ochr yr adeilad, â'r nod o wella mynediad ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn.***

Rhoddwyd copïau o'r amserlenni glanhau diwygiedig wrthym, a oedd yn dangos bod protocolau cliriach ar waith er mwyn cynnal glendid yn gyffredinol. Roedd yr amserlenni hyn yn cynnwys pob ystafell, gan gynnwys cypyrddau, silffoedd, ac arwynebau gwaith. Fodd bynnag, gwnaethom ofyn i staff roi priflythrennau eu henwau ar yr amserlenni bob dydd yn gyson (dyddiad yr amserlen ddiwethaf oedd 16 Tachwedd 2015), i ddangos bod y tasgau wedi cael eu gwneud mewn gwirionedd. Cytunodd y staff i wneud hyn. Gwelsom fod deunyddiau glanhau gwahanol ar gyfer mannau clinigol a mannau nad ydynt yn fannau clinigol, yn unol â chanllawiau rheoli heintiau.

## 6. Y Camau Nesaf

Nid oedd rhai o'r gwelliannau a nodwyd yn ystod ein harolygiad ar 21 Gorffennaf 2015 ond wedi eu gwneud yn rhannol, neu ddim wedi eu gwneud. Felly, mae'r gwelliannau hyn wedi cael eu trosglwyddo i Atodiad A yr adroddiad hwn, er mwyn i'r practis ymateb iddynt unwaith eto.

Dylai'r cynllun gwella diwygiedig nodi'n glir pryd a sut y bydd Practis Deintyddol Rose Hill yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn y practis, gan gynnwys amserlenni. Rhaid i'r camau a gymerir fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynghylch y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r practis yn parhau heb eu gweithredu a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi diweddariadau i AGIC i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol:Cynllun Gwella

## Practis: Practis Deintyddol Rose Hill, Iscraig, Stryd Rose Hill, Conwy

## Dyddiad yr arolygiad: 4 Ebrill 2016

| Rhif y dudalen | Yr hyn mae angen ei wella | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Profiad y Claf** | | | |
| 6 | ***Rhaid i'r practis roi system ar waith er mwyn asesu a gwerthuso profiadau cleifion.Dylid defnyddio adborth gan gleifion i ddylanwadu ar newidiadau cadarnhaol i'r gwasanaeth a ddarperir.***<br><br>Safon Iechyd a Gofal 6.3 | Mae gennyf system ar waith erbyn hyn sy'n asesu ac yn monitro ansawdd y gwasanaeth rydym yn ei ddarparu i'n cleifion. Mae hyn yn cynnwys holiadur a anfonir ddwywaith y flwyddyn at grŵp o 100 o gleifion a ddewisir ar hap. Pan fydd digon o ffurflenni wedi eu dychwelyd, yna bydd aelod o staff yn eu didoli ac yn nodi unrhyw broblemau. Yna, caiff y materion hyn eu trafod mewn cyfarfodydd staff, ac os ydym yn cytuno bod y mater yn bwysig, a bod gan y claf achos dilys, bydd cynllun yn cael ei ffurfio ynglŷn â sut i wella pethau. | Chris Gash nes y bydd y perchennog yn newid. | Cyn pen 6 mis |
| | **Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal** | | | |

| Rhif y dudalen | Yr hyn mae angen ei wella | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| 7 | ***Dylid sicrhau bod systemau a strwythurau rheoli llawer mwy cadarn ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau, ac fe ddylent gynnwys archwiliadau a chamau gweithredu sy'n cael eu dogfennu'n rheolaidd.***<br><br>Safon Iechyd a Gofal 2.4 | Yn dechrau ar unwaith gydag archwiliad yn erbyn HTM 01 05. | Chris Gash | Cwblhau'r archwiliad o fewn pedair wythnos. |
| 8 | ***Yn dilyn ein harolygiad blaenorol, rydym yn argymell bod archwiliadau strwythuredig a rheolaidd yn cael eu cynnal, yn unol â chanllawiau clinigol megis 'Llyfr Coginio ar gyfer Adolygiadau gan Gymheiriaid ac Archwiliadau Clinigol' Deoniaeth Cymru.***<br><br>Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd | Ar hyn o bryd cynhelir archwiliadau rheolaidd ym meysydd rheoli croes-heintio, amddiffyn rhag ymbelydredd, safonau radiograffeg, a dadebru. | Chris Gash | Yn parhau |
| 8 | ***Dylid datblygu gweithdrefnau dadebru mwy cadarn, yn unol â chanllawiau Cyngor Dadebru'r DU ar gyfer gofal deintyddol sylfaenol.***<br><br>Safon Iechyd a Gofal 2.1 a 7.1 | Rydym wedi archwilio ein gweithdrefnau gan ddefnyddio canllawiau'r cyngor dadebru ac wedi gwella ein dogfennaeth a'n hyfforddiant lle nodwyd hynny.<br><br>Mae ail-archwiliad rheolaidd wedi'i drefnu. | Chris Gash | Cwblhawyd<br><br>Archwiliad 20/5/2016 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn mae angen ei wella | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | Penodwyd nyrs ddeintyddol enwebedig i'r archwiliadau wythnosol o gyfarpar a chyffuriau. | | |
| 8 | ***Dylai'r practis hefyd ystyried ategu hyfforddiant ar ddadebru cardio-pwlmonaidd â chyfleoedd dysgu ychwanegol – er enghraifft, ymarferion sy'n seiliedig ar senarios.***<br><br>Safon Iechyd a Gofal 2.1 a 7.1 | Wedi'i gyflwyno bellach. | Chris Gash | Wedi'i gyflwyno bellach, ac ar yr amserlen yn rheolaidd. |
| | **Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | |
| 10 | ***Mae angen gwaith parhaus i sicrhau bod gan y practis bolisïau a gweithdrefnau cadarn ar waith i ategu gofal diogel a chlinigol effeithiol.***<br><br>Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd | I fynd drwy'r holl bolisïau a gweithdrefnau i gyflwyno fframwaith llywodraethu cyson | Chris Gash, nes y bydd y rheolwyr yn newid | 1 flwyddyn |
| 11 | ***Rhaid i'r arfarniadau staff a chynlluniau datblygu personol blynyddol gael eu gwella, er mwyn dangos datblygiad proffesiynol parhaus.*** | Bydd yr arfarniadau'n cael eu cymeradwyo gan ddefnyddio fframwaith gwybodaeth a sgiliau newydd yn seiliedig ar fodel agenda ar gyfer newid, ac a fydd yn canolbwyntio ar chwe maes | Gweler uchod. | Yn ystod yr arfarniad blynyddol nesaf. |

| Rhif y dudalen | Yr hyn mae angen ei wella | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | ***Dylai cyfarfodydd tîm gael eu dogfennu'n glir a dangos dysgu a gwella.***<br><br>Safon Iechyd a Gofal 7.1 | allweddol.<br>1. cyfathrebu<br>2. datblygiad personol a phobl<br>3. iechyd, diogelwch personol a diogelwch eiddo<br>4. gwella gwasanaethau<br>5. ansawdd<br>6. cydraddoldeb ac amrywiaeth<br><br>Bydd hyn yn cynnwys monitro hyfforddiant, yn enwedig yn y meysydd dysgu craidd.<br><br>Rhoddir esboniadau clir ynglŷn â swyddogaeth arfarnu.<br><br>Trefnwyd cyfarfodydd tîm rheolaidd lle rydym yn dewis un o'r safonau y mae'n rhaid inni ei chyrraedd wrth weithio, ac yn trafod sut gallwn wella, gan ddwyn i ystyriaeth adborth gan gleifion a chanlyniadau ein proses archwilio.<br><br>Anogir a chefnogir staff i ymgymryd â thasgau sy'n codi o'r prosesau hyn, ac maent yn derbyn cymorth llawn yn eu rolau newydd. | | Mae'r rhain wedi dechrau, ac maent wedi eu trefnu unwaith bob mis neu lai. |

| Rhif y dudalen | Yr hyn mae angen ei wella | Camau gweithredu’r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| 11 | ***Atgoffir y practis i ddatblygu system glir ar gyfer monitro cyfleoedd hyfforddi a dysgu.***<br><br>Safon Iechyd a Gofal 7.1 | Mae fframwaith ar waith sy'n cael ei brofi ar hyn o bryd. Bydd hyn yn cyd-fynd ag arfarniadau gwell er mwyn sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ddysgu. | Donna Evans | Chwe mis |
| 11 | ***Dylid ystyried ar frys rheolaeth ac arweinyddiaeth gyffredinol y practis, er mwyn sicrhau:***<br>• ***Cyhyd ag y bo modd, y cydymffurfir â rheoliadau a safonau***<br>• ***Bod llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd cryf i hyrwyddo proses gynaliadwy o ddarparu gofal yn ddiogel ac yn effeithiol.***<br>***Rhaid hysbysu AGIC am y dyddiad cwblhau pan fydd y broses o werthu'r busnes wedi'i chwblhau, unwaith mae'r perchennog/deintydd presennol yn gwybod.***<br>Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd | Rydym i gyd yn ymwybodol o'r safonau y mae gofyn i ni eu cyrraedd wrth weithio, ac rydym yn cael cyfarfodydd tîm rheolaidd lle rydym yn gweithio drwy'r rhestr i wella safonau. Sefydlwyd llinellau atebolrwydd clir a neilltuwyd mwy o amser ar gyfer cyfarfodydd tîm.<br><br>Mae'n debygol y bydd perchennog a rheolwyr y practis yn newid o fewn yr wythnosau nesaf. Lluniwyd contractau, ond nid ydynt wedi eu cyfnewid eto.<br><br>Byddwn yn hysbysu AGIC ar unwaith pan fydd dyddiad wedi'i gadarnhau. | Chris Gash | Ymhen 8 wythnos |

| Rhif y dudalen | Yr hyn mae angen ei wella | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | **Ansawdd yr Amgylchedd** | | | |
| 13 | ***Parhau i drafod â'r perchennog/y person sy'n gyfrifol am fynedfa ochr yr adeilad, â'r nod o wella mynediad ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn.***<br>Safon Iechyd a Gofal 2.1 | Yn parhau | Y perchennog newydd | 1 flwyddyn |

## Cynrychiolydd y Practis:

**Enw (llythrennau bras):** .......Chris Gash.........................................................................................

**Teitl:** ........Deintydd ...................................................................................

**Dyddiad:** ........28 Mai 2016……………………………………